# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Thomas Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Jim Evans, Eric Jones, R. Llewelyn Jones, J.P.Williams |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Swyddog Adran 151 Dros Dro a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr E.G.Davies, Cliff Everett, A.M.Jones, G.W.Roberts, OBE, Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Mr John Roberts (SAC), Mr James Quance (PwC), Mr Patrick Green, (RSM Tenon) |

---

Cyn dechrau ar fusnes y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ymwybodol bod nifer o Aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn rhai o'r adroddiadau oedd ar y rhaglen yn hwyr iawn ac roedd hynny wedi gwneud pethau yn anodd iddynt baratoi'n iawn ar gyfer y cyfarfod hwn. Dywedodd wrth yr Aelodau ei fod wedi cael cais i ohirio'r cyfarfod ond oherwydd bod yna wahoddedigion yn bresennol roedd wedi penderfynu canlyn ymlaen gyda'r cyfarfod. Er hynny, roedd y ffaith bod rhai o ddogfennau'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio wedi'u hanfon yn hwyr yn achos o bryder iddo ac yn gofyn, efallai, am i rywun edrych ar beth oedd wedi mynd o'i le y tro hwn. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr a oedd y Pwyllgor yn mynd yn groes i'r hyn oedd yn ofynnol ohono neu a oedd yn cymryd rhan mewn ymarfer drwg trwy barhau gyda'r cyfarfod.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y gofynion statudol yn dweud bod yn rhaid i ddogfennau cyfarfodydd y gallai'r cyhoedd fod â diddordeb ynddynt gael eu cyhoeddi dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod oni bai bod yna amgylchiadau eithriadol yn codi. Byddai materion fyddai'n cael eu hystyried o dan amgylchiadau o'r fath yn cael eu galw'n faterion brys a byddai er budd y Cyngor i faterion o'r fath gael eu hystyried ar unwaith; ond nid oedd y dogfennau hwyr ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn disgyn o fewn y categori hwnnw. Er hynny, roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn iawn i holi paham roedd rhai o'r adroddiadau a anfonwyd atynt yn hwyr. Dywedodd ei fod yn ymwybodol bod rhai o Aelodau'r Pwyllgor hwn wedi gofyn am i'r cyfarfod gael ei ohirio ac er nad oedd yn cwestiynu penderfyniad y Cadeirydd i symud ymlaen oherwydd bod rhai gwahoddedigion allanol yn bresennol, roedd yn credu nad oedd ond teg i'r Cadeirydd ddweud bod rhai o Aelodau'r Pwyllgor o'r farn nad oeddent wedi cael digon o amser na chyfle i ystyried y materion oedd gerbron y Pwyllgor a'u bod felly wedi absenoli eu hunain o'r cyfarfod.

Gwnaed nifer o wahanol awgrymiadau gan yr Aelodau oedd yn bresennol ynglŷn â'r hyn fyddai, yn eu tyb hwy, y ffordd fwyaf priodol i fwrw ymlaen â'r cyfarfod o ystyried yr amgylchiadau, a hynny'n cynnwys bod yr Aelodau yn derbyn gwybodaeth gan y Swyddogion, ond i ohirio hyd y cyfarfod nesaf unrhyw faterion fyddai'n gofyn am wneud penderfyniad. Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn gwerthfawrogi'r sefyllfa anodd yr oedd Aelodau'r Pwyllgor yn eu cael eu hunain ynddo heddiw yn ogystal â'r pwysau ar y Gwasanaeth Cyllid yn yr wythnosau diwethaf yn paratoi Cyllideb 2012/3 a materion perthynol. Awgrymodd pe bai Aelodau'r Pwyllgor yn credu bod unrhyw fater sydd o dan ystyriaeth yn y cyfarfod heddiw angen ei drafod ymhellach, yna fe ddylid gwneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw o dan bob eitem berthnasol er mwyn sicrhau eu bod wedyn yn cael eu cynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf. **Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd parhau gyda'r cyfarfod yn unol ag argymhelliad y Prif Weithredwr.**

DRAFT

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd o’r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2011 a 14 Chwefror, 2012 a’u cadarnhau fel rhai cywir.

## 3 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

3.1 Cafwyd diweddariad byr gan Mr John Roberts, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar ffrydiau gwaith presennol o fewn SAC. Rhoddwyd hefyd gopi i’r Aelodau o’r Adroddiad Gwella Blynyddol ryddhawyd fis Ionawr 2012 oedd yn rhoi trosolwg a gwerthusiad o'r graddau yr oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi gwella tros y flwyddyn ddiwethaf ynghyd â'i drefniadau i sicrhau gwelliant pellach.

Dywedodd Mr John Roberts wrth y Pwyllgor bod y cyfnod yn dilyn cyhoeddi’r Adroddiad Gwella Blynyddol yn un gweddol ddistaw a bod y datblygiadau yn y cyfnod wedi cael eu cyfyngu yn bennaf i dri maes, sef y disgwyl am gyhoeddi’r Adroddiad ar Ymgysylltiad Cenedlaethol ym Mawrth 2012; goblygiadau Rheoli Prosiect, a’r gwaith cychwynnol o gwmpas Cynllun Busnes Corfforaethol newydd y Cyngor am y flwyddyn i ddod.

Tynnodd y Cynghorydd J.P.Williams sylw'r Pwyllgor at strategaethau rheoli yr oedd ef yn gwybod amdanynt ac a allai brofi’n ddefnyddiol i'r Awdurdod yn ei ymdrechion i wneud gwelliant, lleihau costau a gostwng gwastraffu. Soniodd am y dull Kaizen oedd yn ymwneud â gwelliant parhaol, cynnal Adolygiad o’r Gyllideb Sail i nodi gwendidau all arwain at ryddhau adnoddau i wasanaethau llinell flaen, a'r cysyniad o Beirianwaith Proses Busnes. Holodd a oedd gan SAC unrhyw gynlluniau i drefnu hyfforddiant i Aelodau Etholedig ar draws Cymru ynglŷn â’r strategaethau hyn gyda golwg ar alluogi gwelliant a lleihau costau o fewn gwasanaethau heb orfod troi at ddull torri a llosgi. Dywedodd Mr John Roberts bod y strategaethau y cyfeirir atynt a'r hyn y maent yn ceisio’i gyflawni wedi’u cynnwys yn agwedd Cefnogi a Herio’r SAC. Rhai esiamplau o’r dull hwn oedd y gwaith diweddar gydag Aelodau. Mae SAC hefyd yn gwneud gwaith hwyluso gydag Aelodau etholedig ar lefel leol, ac mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu i’r holl gynghorau yng Nghymru yn amlinellu ei gynigion am y flwyddyn i ddod ac yn ceisio cael eu mewnbwn a'u sylwadau ar hynny.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid Dros Dro bod trafodaethau wedi’u cynnal ynglŷn ag Adolygiad Cyllideb Sail a chyfeiriodd yr aelodau at eitem oedd ar y rhaglen heddiw yn ymwneud â sut y gwneir asesiad risg ar y gyllideb. Mae'r Gwasanaeth Cyllid ar hyn o bryd yn gweithio ochr yn ochr â SAC parthed y DLO a Rheoli Fflyd ac fe gynhaliwyd gweithdai i edrych ar sut y gall rhai gwasanaethau - yn arbennig TGCh a Chyllid gael eu trawsnewid. Er nad yw hyn efallai yn adolygiad o’r gyllideb sail, y mae’n cynrychioli adolygiadau wedi’u targedu ac roedd yn credu bod hyn yn mynd i’r cyfeiriad iawn.

O safbwynt yr Adroddiad Gwella Blynyddol, roedd yr Aelodau’n teimlo nad oeddent mewn sefyllfa i ystyried ei gynnwys trwy fod y ddogfen ymysg y bwndel o bapurau a dderbyniwyd yn hwyr. Cafwyd awgrymiadau y dylai gael ei gynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Pwyllgor a bod yr Aelodau oedd yn absennol o gyfarfod heddiw yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ar ei gynnwys. Ategodd y Prif Weithredwr y cyngor yr oedd wedi’i roi ynghynt sef, pe bai'r Aelodau yng nghyfarfod heddiw’n credu bod yna rai pethau o fewn yr Adroddiad Gwella Blynyddol a oedd angen ystyriaeth bellach ac / neu sgriwtini agosach, yna fe ddylai’r Pwyllgor hwn wneud penderfyniad ffurfiol i gynnwys yr adroddiad fel mater i'w drafod ar raglen y cyfarfod nesaf. Roedd y Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid am atgoffa’r Aelodau eu bod wedi cael copi o'r Adroddiad Gwella Blynyddol cyn y rhoddwyd cyflwyniad ar ei gynnwys i’r cyfarfod o’r Cyngor Sir ar 6 Mawrth. Y bwriad o safbwynt y cyfarfod hwn oedd rhoi cyfle i’r Pwyllgor Archwilio ystyried sut yr ydym yn delio â’r Adroddiad Gwella ar draws y Cyngor ac felly, tra bod yr adroddiad efallai wedi cael ei anfon yn hwyr, nid oedd yn ddogfen oedd yn newydd i’r Aelodau. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod holl ganfyddiadau allweddol yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael sylw priodol ac yn derbyn y sylw dyledus gan yr holl fforymau perthnasol yn y Cyngor. Yng ngoleuni’r cyngor a roddwyd, cynigiwyd a derbyniwyd bod yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cael ei ystyried gan bob un o'r Pwyllgorau Sgriwtini gyda golwg ar iddynt ymgorffori unrhyw feysydd sydd angen cael sylw ac / neu sgriwtini pellach o fewn eu Rhaglenni Gwaith eu hunain fel bo'n briodol.

DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf fel y'i cyflwynwyd.**
- **Cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol i bob un o'r pwyllgorau sgriwtini gydag argymhelliad bod unrhyw faes y bernir ei fod angen sylw ac/neu sgriwtini pellach yn cael ei ymgorffori o fewn Rhaglen waith y pwyllgor sgriwtini perthnasol.**

3.2 Cafwyd diweddariad gan Mr John Roberts, SAC am Raglen Reoleiddio SAC am 2012/13.

Dywedodd Mr John Roberts wrth yr Aelodau bod y drefn gyda'r ffordd y mae gwaith archwilio SAC yn cael ei ddarparu wedi newid, a bod y drefn lle 'roedd rhai darnau o waith ar wahân yn cael eu cytuno a'u llunio, gyda'r canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl yn unigol, wedi cael ei ddisodli o dan y Mesur Llywodraeth Leol gan yr Adroddiad Gwella Blynyddol. Mae SAC hefyd yn darparu Llythyr Diweddaru Asesiad Corfforaethol. Yn ei hanfod, felly, mae'r ddau ddarn hwn o waith yn cynrychioli'r ddau allbwn ffurfiol mawr y bydd yr Awdurdod yn eu derbyn. Mae cwantwm gwaith SAC i gyd yn bwydo i mewn i'r ddau allbwn hynny ac mae ei rhaglen waith yn cynnwys tair elfen yn ymgorffori gwaith cylchol sy'n bwydo i mewn i'r Mesur Llywodraeth Leol megis archwilio'r Cynllun Gwella; gwaith lleol sy'n cael ei gytuno gyda'r Cyngor yn ôl yr hyn y mae SAC yn ei dybio sy'n briodol, a'r gwaith y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei roi yn ei le ar sail Cymru gyfan.

Bydd Rhaglen Reolaethol SAC i Fôn pan y'i cwblheir yn cynnwys y canlynol -

- Gwirio cynnydd gydag unrhyw feysydd a chynigion ar gyfer gwella a osodwyd yn y Llythyrau Diweddaru Trefniadau Corfforaethol a'r Adroddiadau Gwella Blynyddol
- Siecio cynnydd ar feysydd eraill y bernir eu bod yn bwysig - mae'r rhain yn parhau yn hytrach na darnau o waith ar wahân
- Archwilio Cynllun Gwella/Cynllun Busnes Corfforaethol er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'r Mesur Llywodraeth Leol ac archwilio a yw'n ychwanegu gwerth ai peidio

Nid yw SAC yn credu bod angen gwneud Asesiad Corfforaethol llawn yn flynyddol ac, yn hytrach, mae'n edrych ar y ffordd i symud i gylch 4 blynedd gyda hynny'n golygu y bydd SAC, yn y blynyddoedd yn y canol pan na fydd unrhyw asesiad llawn yn cael ei wneud, yn cynnal asesiad cyffyrddiad ysgafn ar y trefniadau corfforaethol. Mae'r gwaith lleol eto i'w gytuno ac yn cael ei drafod. Bydd yr holl weithgareddau hyn yn bwydo i mewn i'r Llythyr Diweddaru'r Asesiad Corfforaethol y rhagwelir ei ryddhau ym mis Gorffennaf.

Cyfeiriodd y Swyddog yn fyr at ffrydiau gwaith eraill sydd yn digwydd ar lefel genedlaethol ac a fydd ond yn cael effaith anuniongyrchol ar Ynys Môn yn cynnwys Astudiaeth Llywodraeth Leol Cymru Gyfan mewn perthynas â sut y mae cynghorau'n wynebu'r heriau ariannol. Rhai prosiectau tebygol eraill yr ymgynghorir arnynt yw Astudiaeth Cymru Gyfan o NEET. Yn y cyfnod o Ebrill i Hydref bydd SAC yn cynnal archwiliad o beirianwaith hunanarfarnu'r Cyngor ac y mae hwnnw'n ddarn sylweddol o waith fydd yn cynnwys meysydd gwaith fydd unwaith yn rhagor yn bwydo i mewn i'r Adroddiad Gwella Blynyddol. Mae archwiliad o Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor hefyd ar y gweill a thua diwedd Hydref a Thachwedd, bydd asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad yn cael ei brofi a'i archwilio. Unwaith y caiff ei chwblhau, bydd Rhaglen Reolaethol SAC ar gyfer Ynys Môn ar gael i'r Aelodau yn ysgrifenedig. Y neges allweddol yw y bydd gweithgaredd rheolaethol o hyn ymlaen yn bwydo i mewn i'r ddau brif allbwn ac nid yn seiliedig ar ddarnau unigol o waith.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

## 4 ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth i'r Pwyllgor, adroddiad cynnydd ar waith Archwilio Allanol.

Amlygodd Mr James Quance y pwyntiau allweddol canlynol o'r datganiad sefyllfa –

- Ardystio cyfrifon 2009/10 a 2010/11 - rhoddwyd tystysgrif cau cyfrifon i gyfrifon 2009/10 ar 13 Chwefror 2012 ac ar 1 Mawrth 2012 yng nghyswllt Cyfrifon 2010/11 yn dilyn cwblhau'r gwaith mewn perthynas â'r ymchwiliad hir a fu i honiadau ynglŷn â gweinyddu grant cartrefi gwag a grant gwella trefi yn ogystal â chadarnhad gan yr Archwilydd Apwyntedig na fyddai'n rhyddhau Adroddiad Budd y Cyhoedd mewn perthynas ag anallu'r Cyngor i gyfarfod â'r amserlen statudol ar gyfer cau'r cyfrifon.

- Proses Cau'r Cyfrifon - fe gafwyd sesiwn di-briffio lawn rhwng y tîm PwC a Swyddogion y Gwasanaeth Cyllid ynglŷn â phroses cau cyfrifon 2010/11 er mwyn nodi meysydd i'w gwella wrth baratoi cyfrifon 2011/12 a'r broses archwilio. Fe wnaed cynnydd da gan y Cyngor, ac mae swyddogion wedi bod yn rhagweithiol iawn yn rhoi trefniadau yn eu lle i osgoi'r problemau a gafwyd gyda chynhyrchu'r cyfrifon yn 2009/10 a 2010/11. Mae'r Archwilwyr Allanol yn hyderus ar hyn o bryd bod y Cyngor mewn sefyllfa well o lawer wrth ddod at gau'r cyfrifon nag y bu mewn blynyddoedd diweddar. Y dasg yw cynnal y momentwm a pharhau i fonitro cynnydd yn ofalus. Mae cysondeb ac arbenigedd yn rhai o'r swyddi cyfrifo allweddol wedi bod yn gyfrifol am ran fawr o'r gwelliant a'r her yw ceisio cadw'r parhad hwn.
- Grantiau – mae holl fidiau 2009/10 wedi'u hardystio ac eithrio'r Grant Cyfalaf Cynnal a Chadw Ffyrdd fydd yn cael ei ardystio'n fuan. Mae'r mwyafrif o fidiau grant 2010/11 wedi'u cyflwyno i'w harchwilio ac mae'r gwaith archwilio fel sy'n cael ei restru yn yr adroddiad yn parhau. Mae gwaith archwilio bidiau Cymunedau'n Gyntaf Maes Hyfryd 2005/06 hefyd yn mynd yn ei flaen ac fe welwyd oedi gyda'i gyflwyno oherwydd anawsterau yn casglu papurau gwaith cefnogol i'r cais.

  Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn croesawu asesiad cadarnhaol yr Archwilwyr Allanol o'r sefyllfa gyfredol ynglŷn â phroses cau cyfrifon 2011/12. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r camau oedd yn cael eu cymryd gan y Gwasanaeth Cyllid i ddatblygu'r staff presennol i allu gwneud gwaith cyfrifo allweddol er mwyn sicrhau parhad y sgiliau a'r arbenigedd yn y dyfodol; sut roedd yr Awdurdod hwn yn cymharu gydag awdurdodau eraill yng Nghymru, ac a oedd cydweithredu yn cynnig opsiwn ymarferol o safbwynt cael yr arbenigedd angenrheidiol ar yr amser iawn er mwyn hwyluso'r broses o gau'r cyfrifon.

  Eglurodd y Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid Dros Dro bod y Gwasanaeth Cyllid yn ceisio sicrhau gwasanaeth staff dros dro allweddol ar hyn o bryd am gyhyd ag sy'n bosibl a'i fod yn y cyfamser yn ceisio tracio yn ddeuol ddatblygiad y prosesau a'r staff presennol. Fodd bynnag, fe bery cyfnod o amser rhwng dechrau mewn swydd a gallu'r unigolyn hwnnw i wneud y rôl yn llawn. Byddai gallu denu ymgeiswyr allanol yn helpu ond bydd yr ymdrechion i ddatblygu staff mewnol yn parhau. Tra bod y cyfnod amser ar gyfer cau'r cyfrifon yn berthnasol i bob awdurdod, nid oes gan Ynys Môn ond nifer gyfyngedig o staff i wneud yr un swm o waith ac sydd yn cael ei wneud mewn awdurdodau mwy. Er bod yna gyfleon i rannu arbenigedd a'i wneud yn well, mae'n hynod annhebygol y byddai awdurdodau eraill yn gallu rhyddhau staff arbenigol yn y cyfnod hyd at gau'r cyfrifon oherwydd mae hwn yn amser prysur iawn i bob awdurdod. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Cyllid fod y gofynion wrth gau'r cyfrifon wedi dod yn sylweddol fwy cymhleth yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac er i waith gael ei wneud i wella'r prosesau ynglyn â chau'r cyfrifon, bydd y Gwasanaeth Cyllid yn dal i fod yn ddibynnol ar staff dros dro ac mae'n fwy na thebyg y bydd yn seiliedig ar economi gymysg o ddatblygu staff mewnol a chyflogi arbenigedd allanol i wneud gwaith ar y cyfnodau prysuraf.

  **Penderfynwyd derbyn adroddiad cynnydd PwC a nodi ei gynnwys.**

**5 DIWEDDARIAD RHEOLI'R TRYSORLYS**

Cyflwynwyd, er sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) yn amlinellu'r camau a gymerwyd i ddiwygio'r Meini Prawf ar gyfer y Rhestr Fenthyca Gymeradwy yn y Strategaeth Fuddsoddi. Roedd yr adroddiad yn egluro i'r camau gael eu cymryd mewn ymateb i newidiadau i raddfeydd credyd a statws Trosglwyddo Risg Credyd Santander UK gyda'r banc hwnnw yn wrthbarti pwysig sy'n cael ei ddefnyddio yn ddyddiol ar gyfer balansau llif arian gwarged y Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r camau lliniaru gymerwyd i sicrhau bod y risg credyd yn cael ei rheoli'n briodol.

Holodd yr Aelodau'r Swyddog ynglyn â'r risgiau tebygol i'r Cyngor o ganlyniad i lacio'r meini prawf benthyca mewn ymateb i ddigwyddiad yr adroddwyd amdano ac roeddent am gael sicrwydd bod Santander UK a sefydliadau eraill tebyg yn parhau yn ddigon cadarn a sicr i'w defnyddio. Ymatebodd y Swyddog i'r holl bwyntiau a godwyd gan ddweud bod gan y Gwasanaeth Cyllid fand eang o safbwynt y cyfnod pryd bydd sefydliad yn cael ei ddefnyddio, a hynny hyd at 3 mis a bod y sefydliad dan sylw'n tueddu i gael ei ddefnyddio ar sail dros nos. Ystyrir ei bod yn briodol defnyddio Santander UK fel gwrthbarti ar gyfer adneuon wedi'u cyfyngu i hyd at un mis ar hyn o

bryd ac felly, er i'r meini prawf gael eu llacio, mae'r trefniadau capio ar y llaw arall wedi cael eu tynhau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r newidiadau hwyr i'r Strategaeth Fuddsoddi a nodi penderfyniad y Swyddog Adran 151 Dros Dro i barhau i ddefnyddio Santander UK fel gwrthbarti.**

## 6 ASESU RISG GYLLIDEBOL

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor adroddiad yn amlinellu'r risgiau oedd yn gysylltiedig â Chyllideb 2012/13 a chynlluniau arbed cysylltiol ynghyd â meysydd a phrosiectau i helpu i liniaru'r risgiau hynny.

Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid wrth yr Aelodau bod yr adroddiad uchod wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd Cynaliadwyedd yn gynt yn y dydd ac y byddai hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini corfforaethol fel trosolwg o asesiad risg y gyllideb. O ystyried rôl uwch y Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol mewn perthynas ag adrodd ariannol a monitro'r gyllideb, roedd yn credu y byddai o ddefnydd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad. Roedd yr Adran Gyllid wedi ceisio categoreiddio'r holl gynlluniau arbedion oedd yn cyfrannu i gyllideb 2012/13 yn ôl y risg o fethu â chael eu cyflawni'n llawn gyda choch fel risg uchaf o fethu cyflawni a gwyrdd y risg isaf. O safbwynt y darlun cyffredinol, mae'r asesiad risg cyllidebol yn darparu agwedd negyddol gyda choch y lliw mwyaf amlwg yn dynodi risg uchel. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau'r prif negeseuon a ddarparwyd ar sawl achlysur i'r Bwrdd ac i'r Cyngor bod cyllideb 2012/13 yn un risg uchel yn yr ystyr ei bod yn cynnwys cynlluniau arbed sylweddol a'i bod yn gosod y patrwm ar gyfer cyllidebau blynyddoedd i ddod sydd yn debygol o fod yn gynyddol anodd. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod yr asesiad uchod yn cynrychioli asesiad cychwynnol yr Adran Gyllid oedd wedi'i wneud yn annibynnol ar y meysydd gwasanaeth ac nad yw yn rhoi'r sefyllfa derfynol. Bydd yn cael ei ddilyn gan asesiad risg mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau unwaith y bo cynlluniau gwasanaeth manwl wedi'u cwblhau a bydd hyn yn galluogi'r meysydd lle bo angen cefnogaeth ychwanegol i gael eu targedu'n fwy llwyddiannus. Dywedodd y Swyddog ei fod yn rhagweld, wrth i gynlluniau gwasanaeth ddod i'r amlwg, y gallai rhai o'r gostyngiadau staff a nodwyd yn yr asesiad fod yn haws i'w rheoli nag oedd y disgwyl ar y cyntaf ac y byddai yna wedyn symudiad sylweddol i lawr o goch i ambr a gwyrdd gan adael casgliad o feysydd risg uchel fydd angen mwy o gefnogaeth er mwyn darparu ar darged.

Bwriadwyd yr adroddiad uchod hefyd i arwain at baratoi cyllideb 2013/14. Rhaid i'r Awdurdod fod yn glir ynglyn â'i strategaeth gyllidebol ac am y rheswm hwnnw fe gafwyd cais bod cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth ynglyn â'r swyddi sydd fwyaf tebyg o gael eu cymryd allan o'r gwasanaeth a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Grŵp Arweinyddiaeth ym mis Ebrill er mwyn iddo allu cymryd golwg gorfforaethol o'r hyn fydd o fudd i'r Cyngor cyfan. Os yw'r Awdurdod am barhau i ddiogelu gwasanaethau statudol yna fe fydd yn wynebu sefyllfa fydd yn ailadrodd ei hun lle bydd rhai o'r gwasanaethau dewisol yn parhau i ddioddef ar y sail nad oes yna unrhyw le arall i fynd os mai'r agwedd yn syml fydd gwneud i ffwrdd â swyddi a gwariant. Rhaid i'r Awdurdod ddatblygu ffordd wahanol o weithio. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r risgiau gyda darparu gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn gwneud i ni feddwl am sut y bydd yr Awdurdod yn paratoi ei hun ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio'n croesawu'r adroddiad fel un oedd yn cynnig ymagwedd briodol o ran rhai o'r heriau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n hoffi gweld y Pwyllgor Archwilio'n cael diweddariad chwarterol ar gynnydd fel ei fod yn ymwybodol o'r darlun cyflawn a chyfeiriad y daith. Dywedodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid y byddai'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiad chwarterol fyddai'n debyg i'r adroddiadau monitro ariannol chwarterol i'r Bwrdd Comisiynwyr / Pwyllgor Gwaith. Pwysleisiodd, fodd bynnag, ei bod yn hynod o bwysig bod y Pwyllgorau Sgriwtini yn craffu ar y ddarpariaeth mewn rhai meysydd gwasanaeth; er gwaethaf syniad bod y gyllideb yn bennaf yn ymwneud â chyllid, cyllideb gorfforaethol ym mherchnogaeth y Cyngor ydyw ac felly mae'n hanfodol bod yr holl wasanaethau yn cael eu dwyn i gyfri ar eu darpariaeth.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac i nodi ei gynnwys.**

## 7 ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i ystyriaeth y Cyngor adroddiad yn amlinellu gweithgareddau'r Adain Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 25 Tachwedd 2011. Roedd yr adroddiad yn delio â'r meysydd canlynol –

- Gwaith a wnaed hyd yma yn erbyn Cynllun Gweithredol 2011/12
- Adroddiadau Archwilio rhaglenedig a gyhoeddwyd hyd yn hyn ynghyd â'r farn/raddfa archwilio.
- Materion staffio gyda chyfeiriad arbennig at y penodiad llwyddiannus i'r swydd fu'n wag ers peth amser – swydd Archwilio Mewnol.
- Adroddiadau heb ddim ymateb iddynt cyn pen tri mis o gyhoeddi adroddiad drafft neu adroddiad drafft diwygiedig gan yr Adain Archwilio Mewnol
- Perfformiad gwasanaeth gwirioneddol yn erbyn targedau blynyddol am y cyfnod oedd i'w weld yn Nhabl 3.1
- Gwaith Ymchwilio arbennig
- Tracio argymhellion
- Hyfforddiant Pwyllgor Archwilio
- Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio – dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gwaith o werthuso'r ceisiadau a dderbyniwyd am eu haddasrwydd yn parhau a gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried sut y byddai'n dymuno cynnal y broses gyfweld a phenodi.
- Adroddiadau Sicrwydd Coch - dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adolygiad o'r Fframwaith Ddiogelu / Recriwtio wedi cael barn Sicrwydd Coch yn seiliedig ar sgôp yr adolygiad a wnaed. Roedd casgliadau'r adolygiad ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad ac yn ei hanfod, roedd yn dod i'r casgliad nad oes, yn gorfforaethol, unrhyw gyfrifoldeb canolog nac atebolrwydd i ddarparu sicrwydd i'r canol corfforaethol bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion diogelu allweddol ar sail barhaol. Fe nodwyd gwendidau gyda gosod a chydymffurfio gyda'r fframwaith rheoli mewn perthynas â threfniadau diogelu sy'n gysylltiedig â recriwtio fel yn y crynodeb gweithredol, ac felly roedd nifer o argymhellion lefel uchel wedi'u gwneud i fynd i'r afael â gwendidau a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Grwpiau Arweinyddiaeth i ffurfio ymateb corfforaethol yn ogystal.

Wrth ystyried cynnwys yr adroddiad fe wnaed y pwyntiau canlynol gan Aelodau'r Pwyllgor –

- Yng nghyswllt y crynodeb o adroddiadau archwilio a'u graddfeydd, cafwyd cynnig bod system bwyntiau'n cael ei sefydlu lle bo Graddau archwilio A yn cael eu sgorio fel 5 pwynt; Graddau archwilio B - 4 pwynt; Graddau archwilio C – 3 pwynt; Graddau archwilio D – 2 bwynt a Graddau archwilio E – 1 pwynt er mwyn cael canran gyfartaleddog fyddai'n helpu i'r Pwyllgor dracio cynnydd yn fwy clir dros amser.
- O safbwynt hyfforddiant a'r fformat y dylai hynny ei gymryd, cadarnhaodd yr Aelodau y byddai'n well ganddynt gwblhau holiadur ac i hyn gael ei ddilyn gan sesiwn gyda gweithdy.
- Yng nghyswllt cyfweld a dewis Aelod lleyg i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio, roedd yr Aelodau'n gytûn i ddirprwyo'r dasg hon i banel o'r Pwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd Eric Jones a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.
- Yng nghyswllt tracio argymhellion ac yn benodol y ffaith mai dim ond 59% o argymhellion archwilio a gategoreiddiwyd fel rhai uchel a chanolog a oedd wedi'u gweithredu yn y cyfnod, cynigiwyd y dylid gweithredu ar gytundeb a wnaed mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor sef, mewn achosion lle bo gwasanaeth yn ddifrifol o hwyr yn gweithredu argymhellion archwilio a ddynodwyd yn risg uchel, y dylid gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio i roi cyfrif am y diffyg cydymffurfio. Eglurodd y Rheolwr Archwilio'r sefyllfa trwy ddweud ei fod yn ymwybodol bod yna nifer o argymhellion a oedd yn ymddangos fel rhai nad oeddent wedi eu gweithredu wedi cael eu gweithredu mewn gwirionedd ond nad oeddent wedi cael eu cofnodi'n ffurfiol fel rhai oedd wedi'u gweithredu ar y system a gyda nifer o achosion, mater ydoedd o ddiweddaru'r system. Nododd Mr. Patrick Green, RSM Tenon bod galw ar wasanaethau i roi cyfrif o'u gwaith yn y dull oedd yn cael ei awgrymu yn arfer cyffredin mewn llefydd eraill ac yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o amlygu diffyg cydweithredu ac fel sbardun i swyddogion ddiweddaru'r system.
- Yng Nghyswllt y diffygion a nodwyd yn y Fframwaith Ddiogelu - Recriwtio, ac o ystyried pwysigrwydd y mater hwn, roedd yr Aelodau'n gytûn i ofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu i'r Prif

Weithredwr i dynnu ei sylw at ganlyniadau'r arolwg archwilio o drefniadau diogelu yng nghyswllt recriwtioac at yr angen i'r mater gael sylw heb unrhyw oedi. Cynigiwyd hefyd bod Archwilio Mewnol yn dweud wrth y Cadeirydd / Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol ac/neu y Swyddog Cefnogi Sgriwtini perthnasol am unrhyw adrannau nad ydynt yn cydymffurfio'n brydlon ac yn llawn gyda gofynion diogelu mewn perthynas â recriwtio.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**
- **Bod cyfweld a phenodi i'r swydd Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Archwilio'n cael ei wneud gan banel o'r Pwyllgor hwn gyda'r Cadeirydd, Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd Eric Jones a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.**
- **Yng nghyswllt gweithredu ar argymhellion archwilio, mewn achosion lle bo'r gwasanaeth yn ddifrifol hwyr yn gweithredu argymhellion archwilio a ddynodwyd yn rhai risg uchel, gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio i roi rhesymau tros y diffyg cydymffurfio.**
- **Mewn perthynas â'r Adolygiad Sicrwydd Coch o'r Fframwaith Diogelu – Recriwtio:**

    - **Gofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Prif Weithredwr i dynnu ei sylw at ganfyddiadau'r arolwg archwilio ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu yng nghyswllt recriwtio gyda'r argymhelliad eu bod yn derbyn sylw heb oedi.**
    - **Gofyn i Archwilio Mewnol ddweud wrth y Cadeirydd / Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini perthnasol ac/neu'r Swyddog Cefnogi Sgriwtini perthnasol am unrhyw adran nad yw'n cydymffurfio'n brydlon ac yn llawn gyda'r gofynion diogelu mewn perthynas â recriwtio.**

## 8 MESUR LLYWODRAETH LEOL - RÔL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid grynodeb o sut y gall gofynion y Mesur Llywodraeth Leol o Fai 2012 ymlaen effeithio ar rôl y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â rhai o'r meysydd canlynol –

- Yr angen i'r Pwyllgor Archwilio adolygu a sgriwtineiddio materion ariannol yr Awdurdod a gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr Awdurdod sydd yn argymhelliad newydd i Bwyllgorau Archwilio. Mae beth yn union a olygir gan faterion ariannol eto i'w ddiffinio.
- Angen i fod â throsolwg o drefniadau archwilio mewnol ac allanol yr Awdurdod.
- Angen i adolygu datganiadau ariannol yr Awdurdod.
- Angen i adolygu ac asesu fframwaith Rheoli Mewnol asesu risg yr Awdurdod a threfniadau llywodraethu corfforaethol.
- Angen i wneud adroddiadau i'r Awdurdod ar ddigonolrwydd y trefniadau hynny.
- Angen bod o leiaf un Aelod o'r Pwyllgor yn Aelod Lleyg.
- Darpariaeth i ganiatáu i Aelod o'r Pwyllgor Gwaith fod yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

Nododd y Swyddog bod y Pwyllgor Archwilio naill ai yn cyflawni, neu'n gweithio tuag at gyflawni nifer o'r gofynion uchod ac mai'r cyfrifoldeb newydd mawr fydd monitro a sgriwtineiddio'r gyllideb.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**Cynghorydd Thomas Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT